Partneriaeth Sgiliau Prifddinas Ranbarth Caerdydd | Cardiff Capital Region Skills Partnership

# Partneriaeth Sgiliau Prifddinas-Ranbarth Caerdydd

*'Ffyniant drwy Bartneriaeth'*

## Cynllun Cyflogaeth a Sgiliau
## 2022 - 2025




Cyhoeddwyd Tachwedd 2022

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Rhagair | 3 |
| Crynodeb Gweithredol | 4 |
| Cyd-destun Polisi | 8 |
| Cymru Gryfach, Decach a Gwyrddach: cynllun ar gyfer cyflogadwyedd a sgiliau | 8 |
| Sectorau Blaenoriaeth | 10 |
| Deunyddiau a Gweithgynhyrchu Uwch | 12 |
| Lled-ddargludyddion Cyfansawdd | 14 |
| Adeiladu | 16 |
| Creadigol | 18 |
| Technoleg Ariannol | 20 |
| Economi Sylfaenol Ddynol: Addysg, Iechyd, Gofal Cymdeithasol, Gofal Plant a Gwasanaethau Brys | 22 |
| Economi Sylfaenol Ddynol: Lletygarwch, Manwerthu a Thwristiaeth | 24 |
| Cynllun Gweithredu PSPRC | 26 |




# Rhagair

*Croeso i ail fersiwn Cynllun Sgiliau Partneriaeth Sgiliau Prifddinas-Ranbarth Caerdydd 2022-2025. Ein ffocws ar gyfer y Cynllun hwn oedd sicrhau* ***'Ffyniant drwy Bartneriaeth'*** *drwy feithrin a chofleidio gwybodaeth gyfunol cynrychiolwyr o fusnesau, addysg bellach ac addysg uwch, hyfforddiant a'r llywodraeth ar draws ardal gyfan Prifddinas-Ranbarth Caerdydd a fydd yn llywio ac yn cyflawni effaith wrth ddarparu ffyniant cymdeithasol ac economaidd i ddysgwyr o bob oedran, newydd-ddyfodiaid, a'r gweithlu presennol.*

*Mae'r byd gwaith yn newid ar raddfa ddeinamig oherwydd y pandemig Covid, Brexit a marchnadoedd byd-eang sy'n cynnig heriau a chyfleoedd i'n rhanbarth y mae'n rhaid i ni fod yn ystwyth ac yn barod i'w cofleidio a gweithredu'n gadarnhaol arnynt.*

*Mae ein rhanbarth a'i fusnesau'n gweithredu ar lefel leol, genedlaethol, a byd-eang ar draws ei sectorau ac yn cefnogi ein cynllun sgiliau 3-blynedd 'Ffyniant drwy Bartneriaeth'. Mae'n llywio ac yn dylanwadu ar Lywodraeth Cymru mewn perthynas â'i gwaith o gynllunio a chyllido dysgu ôl-16 yn y dyfodol gan sicrhau bod gennym system sgiliau gynaliadwy a arweinir gan alw a fydd yn arwain at fwy o gyflogadwyedd, cynhyrchiant, a ffyniant i'w holl drigolion a busnesau.*

*Yn aml, sgiliau yw'r prif fater a'r flaenoriaeth i fusnesau. Drwy gydol datblygiad y cynllun hwn rydym wedi clywed mai cael marchnad lafur fedrus a galluog sy'n barod i gofleidio diwydiannau'r dyfodol yw'r rhagofyniad ar gyfer y rhan fwyaf o fusnesau. Rydym yn credu bod ein cynllun yn cydnabod ac yn nodi'r camau gweithredu sydd eu hangen ar ystod eang o bartneriaid i fynd i'r afael â'r bylchau sgiliau a'r prinder sgiliau sy'n rhwystr i dwf ar draws Prifddinas-Ranbarth Caerdydd a byddwn yn cefnogi'r amcanion a amlinellir yng Nghynllun Diwydiannol ac Economaidd P-RC.*

*Hoffem ddiolch i holl aelodau ein bwrdd, ddoe a heddiw, sy'n rhoi eu hamser a'u harbenigedd i ni, pob busnes sy'n ymwneud â grwpiau'r sector; mae eich mewnbwn a'ch cyfraniad wedi bod yn amhrisiadwy.*

***Leigh Hughes***
***Cadeirydd, Bwrdd Cyflogaeth a Sgiliau P-RC***



# Crynodeb Gweithredol

Mae Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Prifddinas-Ranbarth Caerdydd (PSPRC) yn gweithredu fel corff strategol i gynhyrchu a dadansoddi gwybodaeth am y farchnad lafur wedi'i halinio â data economaidd. Trwy ddatblygu cynllun cyflogaeth a sgiliau, ceir mecanwaith i adolygu'r ddarpariaeth sgiliau ranbarthol a chynghori Llywodraeth Cymru ar flaenoriaethu yn y dyfodol yn seiliedig ar ofynion cyflogwyr - gan sicrhau i bob pwrpas fod cymaint o arian â phosib ar gael yn y dyfodol ac ysgogi arloesedd.

Arweiniwyd y gwaith o ddatblygu'r cynllun cyflogaeth a sgiliau gan PSPRC ac mae wedi cynnwys cydweithio â darparwyr busnes, addysg a hyfforddiant, rhanddeiliaid allweddol, a Llywodraeth Cymru. Fe'i llywiwyd gan Raglen Lywodraethu 5 mlynedd 2021-26, Cymru Gryfach, Decach a Gwyrddach: cynllun ar gyfer cyflogadwyedd a sgiliau, y Fframwaith Buddsoddi Rhanbarthol a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Bydd yr argymhellion yn y cynllun yn helpu i lywio a dylanwadu ar ddull Llywodraethau Cymru o ymdrin â chyllido dysgu ôl-16, ac yn manylu ar sut y bydd camau gweithredu'n cefnogi Cynllun Diwydiannol ac Economaidd Prifddinas-Ranbarth Caerdydd (P-RC) er mwyn hybu twf economaidd a chynhwysol yn y rhanbarth.

"Ein cenhadaeth yw i adnabod ac ymateb i anghenion cymdeithasol, economaidd a sgiliau Prifddinas-Ranbarth Caerdydd, ymgysylltu â chyflogwyr a rhanddeiliaid eraill i nodi anghenion sgiliau presennol a'r dyfodol a chynllunio'n unol â hynny, a galluogi ymateb rhanbarthol cynhwysol i Fargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd a Pholisi a mentrau Llywodraeth Cymru".

Mae Partneriaeth Sgiliau Prifddinas-Ranbarth Caerdydd wedi datblygu'r Cynllun Cyflogaeth a Sgiliau o dan saith thema allweddol drawsbynciol gyda'r nod dros y tair blynedd nesaf i:

1. **CRYFHAU'R CYNNIG ADDYSG ÔL-16 MEWN SECTORAU BLAENORIAETH DRWY FWY O ARBENIGEDD I ATEB Y GALW GAN GYFLOGWYR AR DRAWS Y DDINAS-RANBARTH**
2. **EHANGU'R CYNNIG PRENTISIAETHAU AR LEFELAU UWCH DRWY YMATEB I NEWIDIADAU I BOLISI'R LLYWODRAETH**
3. **YMGYSYLLTU Â RHANDDEILIAID ALLWEDDOL WRTH DDARPARU AGENDA CYFLOGADWYEDD CYMRU A THARGEDU'R UNIGOLION SYDD BELLAF O'R FARCHNAD LAFUR**
4. **HYRWYDDO TECHNOLEG DDIGIDOL FEL SECTOR 'GALLUOGI' ALLWEDDOL A CHREU GWEITHLU SYDD Â'R SGILIAU DIGIDOL, Y GALLU, A'R HYDER I RAGORI YN Y GWEITHLE AC MEWN BYWYD BOB DYDD.**
5. **DATBLYGU SGILIAU I GEFNOGI'R BROSES O DROSGLWYDDO TUAG AT ECONOMI CARBON ISEL**
6. **DYLANWADU AR WAITH CYMWYSTERAU CYMRU A SICRHAU BOD CYMWYSTERAU SY'N DOD I'R AMLWG YN DIWALLU ANGHENION Y DIWYDIANT**
7. **ADEILADU AR DULLIAU GWEITHREDU O RAN ADDYSG, GWYBODAETH, CYNGOR AC ARWEINIAD AR YRFAOEDD I FYND I'R AFAEL Â CHANFYDDIAD SECTORAU A HYRWYDDO'R SECTORAU ALLWEDDOL FEL DEWISIADAU GYRFA REALISTIG**

1. **Cryfhau'r cynnig addysg bellach ôl-16 mewn sectorau â blaenoriaeth trwy fwy o arbenigo i ateb y galw gan gyflogwyr ledled y Ddinas-Ranbarth.**

Mae PSPRC wedi gweithio gyda Llywodraeth Cymru i sicrhau bod ariannu darpariaeth ôl-16 yn cyd-fynd yn well ag anghenion diwydiant. Mae PSPRC hefyd wedi gweithio gyda darparwyr rhanbarthol addysg bellach ac uwch i lywio'r broses o gynllunio'r cwricwlwm ac i sicrhau bod modd mynd i'r afael â bylchau sgiliau wrth yrru twf economaidd. Trwy broses gymeradwyo, mae PSPRC hefyd wedi sicrhau bod cymwysterau sy'n cael eu hariannu drwy'r Rhaglen Cyfrif Dysgu Personol (CDP) yn ateb galw'r diwydiant.

Wrth symud ymlaen bydd PSPRC yn:

- Gyrru blaenoriaethau rhanbarthol ar gyfer darpariaeth ôl-16 drwy wybodaeth gadarn am y farchnad lafur ac ehangu'r cynnig rhanbarthol CDP.
- Cyd-ddatblygu piblinellau talent drwy fodelau Academi / Bwtcamp fel ymyriadau sgiliau targedig a hyblyg sy'n para tua 12 wythnos.
- Gweithio gyda Llywodraeth Cymru a'r Comisiwn ar gyfer Addysg Drydyddol ac Ymchwil (CADY) arfaethedig i gyflawni'r uchelgais o system addysg a hyfforddiant ôl-orfodol gydgysylltiedig.

2. **Ehangu'r cynnig Prentisiaethau ar lefelau uwch drwy ymateb i newidiadau i bolisi'r llywodraeth.**

Mae PSPRC yn gwbl gefnogol i uchelgais Llywodraethau Cymru i greu 125,000 o brentisiaethau dros dymor y Senedd a'r awydd i gynyddu cyfleoedd i bobl o bob oedran a chefndir ddatblygu sgiliau trosglwyddadwy yn y gweithle a chynyddu eu cyfleoedd mewn bywyd. Mae PSPRC wedi dylanwadu ar gynnwys Fframweithiau Prentisiaeth wedi'u hadnewyddu ac mae wedi mapio'r cynnig rhanbarthol sy'n gysylltiedig â Gradd-brentisiaethau i arddangos ehangder y cyfleoedd sydd ar gael.

Wrth symud ymlaen bydd PSPRC yn:

- Defnyddio tystiolaeth i ddylanwadu ar ddatblygiad fframweithiau Prentisiaeth newydd ar bob lefel.
- Cynyddu nifer y bobl sy'n manteisio ar brentisiaethau ar draws sectorau blaenoriaeth (gan gynnwys Prentisiaethau Uwch a Gradd-brentisiaethau) ac adeiladu ar fodelau llwyddiannus Aspire, Y Prentis a Sgil Cymru.
- Recriwtio mwy o hyfforddwyr ac aseswyr er mwyn sicrhau capasiti o fewn Dysgu Seiliedig ar Waith ôl-16.

3. **Ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol wrth ddarparu agenda cyflogadwyedd Cymru a thargedu'r unigolion sydd bellaf o'r farchnad lafur.**

Mae PSPRC yn gwbl ymwybodol o effaith bosibl Brexit a cholli cyllid yr UE ar gyfer prosiectau a rhaglenni sy'n cefnogi cyflogadwyedd a sgiliau ar draws y rhanbarth. Bydd PSPRC yn parhau i weithio gyda Llywodraeth Cymru, yr Adran Gwaith a Phensiynau a rhanddeiliaid allweddol i wella'r rhagolygon cyflogaeth ar gyfer pobl sy'n economaidd anweithgar ac alinio ag anghenion cyflogwyr. Wedi'i lywio gan PSPRC, mae'r prosiect CELT wedi'i ddarparu'n llwyddiannus ar draws y rhanbarth, gyda darpariaeth yn cefnogi unigolion yn uniongyrchol i gael gwaith mewn sector blaenoriaeth.

Wrth symud ymlaen bydd PSPRC yn:

- Dylanwadu ar gyfeiriad gweithgareddau'r Gronfa Ffyniant Gyffredin, yn enwedig y rheini yn gysylltiedig â 'Phobl a Sgiliau', a sicrhau'r cyfleoedd mwyaf posibl ledled De-ddwyrain Cymru.
- Cefnogi Llywodraeth Cymru i gyflwyno'r Gwarant Pobl Ifanc (GPI), sy'n cynnig cymorth i mewn i waith, addysg, hyfforddiant, neu hunangyflogaeth i bawb dan 25 i sicrhau na fydd unrhyw genhedlaeth yn cael ei cholli ledled Cymru.
- Cynhyrchu gwybodaeth gadarn am y farchnad lafur (GFL) i lywio datblygiad a darpariaeth prosiectau a rhaglenni sy'n dod i'r amlwg.

**4. Hyrwyddo technoleg ddigidol fel sector 'galluogi' allweddol a chreu gweithlu sydd â'r sgiliau digidol, y gallu, a'r hyder i ragori yn y gweithle ac mewn bywyd bob dydd.**

Mae'r diwydiant technoleg ddigidol yn datblygu, dylunio, a gweithredu technolegau sy'n galluogi a thrawsnewid diwydiannau ar draws rhanbarth De-ddwyrain Cymru a chwyldroi'r ffordd y mae pobl yn byw a gweithio. Mae PSPRC wedi cyd-gynhyrchu deunydd marchnata i hyrwyddo datblygiadau sylweddol ar draws y sector, sy'n cael ei ddefnyddio fel mecanwaith i ddenu mewnfuddsoddiad.

Wrth symud ymlaen bydd PSPRC yn:

- Datblygu ymhellach y diwydiant Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol (SGC) i sicrhau bod cymwysterau galwedigaethol yn cadw i fyny ag anghenion diwydiant.
- Mynd i'r afael â phrinder sgiliau critigol a hyrwyddo darpariaeth hyfforddiant gwerthwr a gynigir drwy'r rhaglen Cyfrif Dysgu Personol (CDP).
- Cynyddu'r nifer sy'n manteisio ar brentisiaethau gan gynnwys Prentisiaethau a Rennir a Phrentisiaethau Lefel Gradd.

**5. Datblygu sgiliau i gefnogi'r broses o drosglwyddo tuag at economi carbon isel.**

Cyflawnodd PSPRC brosiect ymchwil cydweithredol a nododd swyddi 'gwyrdd' sy'n dod i'r amlwg ac a asesodd fylchau a phrinder sgiliau cysylltiedig. Awgrymodd canfyddiadau fod ystod eang o heriau yn ymwneud â'r chwyldro gwyrdd gan gynnwys yr angen i uwchgyfeirio'r gwaith o ddatblygu a darparu hyfforddiant addas at y diben. Drwy'r CDP, mae PSPRC wedi gweithio i gynyddu swm y cymwysterau a ariennir i gefnogi cyflogwyr i bontio tuag at economi carbon isel.

Wrth symud ymlaen bydd PSPRC yn:

- Grymuso cyflogwyr i bontio tuag at sero-net a dylanwadu ar ddatblygiad SGC i adlewyrchu rolau newydd a rhai sy'n dod i'r amlwg.
- Adrodd ar y rhwystrau i gwrdd â gofynion sero-net ac archwilio cyfleoedd i ddatblygu Prentisiaethau a chyflwyno cymwysterau i gwrdd â dyheadau.
- Datblygu dulliau gweithredu ar y cyd â rhanddeiliaid allweddol gan gynnwys SWIC a TUC Cymru a datblygu rhaglenni gwaith ar y cyd.

6. **Dylanwadu ar waith Cymwysterau Cymru a sicrhau bod cymwysterau sy'n dod i'r amlwg yn diwallu anghenion y diwydiant.**

Drwy'r Bwrdd Cyflogaeth a Sgiliau, a grwpiau clwstwr cynhaliol, mae PSPRC wedi cefnogi ystod eang o adolygiadau sector a gynhaliwyd gan Cymwysterau Cymru gan gynnwys y rheini sy'n canolbwyntio ar Adeiladu a'r Amgylchedd Adeiledig, Peirianneg a Gweithgynhyrchu Uwch a Theithio, Twristiaeth, Lletygarwch ac Arlwyo. Mae PSPRC hefyd wedi dadlau dros ddatblygu SGC diwydiant newydd a diwygiedig sy'n darparu'r blociau adeiladu ar gyfer y cymwysterau galwedigaethol a yrrir gan y sector, a achredir gan Cymwysterau Cymru.

Wrth symud ymlaen bydd PSPRC yn:

- Gweithio gyda Cymwysterau Cymru drwy eu hadolygiadau sector a chydweithio fel rhan o brosesau gweithredu.
- Dylanwadu ar Colegau Cymru, FfHCC a darparwyr hyfforddiant i sicrhau bod ymarferwyr yn meddu ar y sgiliau i gyflawni yn erbyn gofynion newydd.
- Ymgysylltu â 'Cymwys ar gyfer y Dyfodol' i ail-lunio'r dirwedd gymwysterau drwy'r cwricwlwm newydd i Gymru, gan ddefnyddio grwpiau clwstwr sector blaenoriaeth.

7. **Adeiladu ar dulliau gweithredu o ran addysg, gwybodaeth, cyngor ac arweiniad ar yrfaoedd i fynd i'r afael â chanfyddiad sectorau a hyrwyddo sectorau allweddol fel dewisiadau gyrfa realistig.**

Mae PSPRC wedi gweithio gyda Gyrfa Cymru i fapio'r gweithgareddau Addysg, Gwybodaeth, Cyngor ac Arweiniad Gyrfaoedd (AGCAG) a gyfarwyddir gan gyflogwyr ar draws sectorau blaenoriaeth rhanbarthol. Mae canfyddiadau'r prosiect ymchwil hwn wedi llywio datblygiad Cynllun Gweithredu ar y cyd Gyrfa Cymru – PSPRC. Fel rhanddeiliaid rhanbarthol allweddol, mae PSPRC hefyd wedi gweithio gydag Addewid Caerdydd i wella cyfleoedd dysgu i athrawon a thrwy'r peilot Profiad Gwaith ac wedi codi ymwybyddiaeth o gyfleoedd yn y sector blaenoriaeth rhanbarthol.

Wrth symud ymlaen bydd PSPRC yn:

- Cydweithio â Gyrfa Cymru wrth gyflawni'r Cynllun Gweithredu AGCAG ar y cyd.
- Hyrwyddo mentrau sy'n gysylltiedig â gyrfaoedd gan gynnwys cynllun Venture P-RC, rhaglenni awdurdod lleol fel y fenter Addewid Caerdydd a rhaglenni cenedlaethol fel y Gyfnewidfa Addysg Busnes a'r Cynllun Partner Gwerthfawr.
- Ysbrydoli busnesau i ymgysylltu ag ysgolion fel rhan o'r gwaith o gyflwyno'r cwricwlwm newydd i Gymru a'r thema trawsbynciol Gyrfaoedd a Phrofiadau Gwaith (GPhG).

# Cyd-destun Polisi

Mae [Rhaglen Lywodraethu 2021-2026](#) yn amlinellu ymrwymiadau uchelgeisiol a fydd yn helpu i fynd i'r afael â'r heriau a gwella bywydau pobl ledled Cymru. Drwy'r rhaglen, canolbwyntiwyd ar yrru economi Gymreig gryfach, fwy cystadleuol drwy gau'r bwlch sgiliau a mynd i'r afael â thegwch ac anghydraddoldeb - er mwyn hybu swyddi da a chodi pobl allan o dlodi.

Drwy'r rhaglen, gwnaed ymrwymiad i gryfhau Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol (PSRhau). Mae PSRhau yn cynghori Llywodraeth Cymru ar y cyfeiriad strategol ar gyfer sgiliau ac yn gwneud argymhellion ar feysydd twf neu ddirywiad, yn seiliedig ar dystiolaeth gadarn ac ymgysylltu cryf â chyflogwyr a rhanddeiliaid. Mae pedair Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol (PSRh) yn gweithredu ar draws rhanbarthau Cymru (Gogledd, Canolbarth, De-orllewin a De-ddwyrain) ac mae pob un wedi cael y dasg gan Lywodraeth Cymru i gyflawni rolau a fynegir trwy 'Cymru Gryfach, Decach a Gwyrddach: cynllun ar gyfer cyflogadwyedd a sgiliau'.

Wedi'i chynnal gan Gyngor Dinas Casnewydd, mae Partneriaeth Sgiliau Prifddinas-Ranbarth Caerdydd (PSPRC) yn ymgymryd â rôl y PSRh ar draws y 10 Awdurdod Lleol yn Ne-ddwyrain Cymru ac mae'n arwain y gwaith o ddarparu rhaglen waith a ariennir gan grant Llywodraeth Cymru.

## Cymru Gryfach, Decach a Gwyrddach: cynllun ar gyfer cyflogadwyedd a sgiliau »»

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ddull rhanbarthol o ran sgiliau gydag uchelgais i ysgogi'r galw drwy ddulliau hyblyg sy'n mynd i'r afael â'r angen lleol a rhanbarthol. Wrth i Gymru ddod allan o'r pandemig, a wynebu heriau Brexit a'r Newid yn yr Hinsawdd, nid yw'r gallu i ddysgu, hyfforddi a symud ymlaen yn y gwaith erioed wedi bod mor bwysig.

Mae [Cymru Gryfach, Decach a Gwyrddach](#) yn ategu'r blaenoriaethau a nodir yn y Fframwaith ar gyfer Buddsoddi Rhanbarthol yng Nghymru ac yn manylu sut y bydd Llywodraeth Cymru yn mynd i'r afael â heriau allweddol sy'n gysylltiedig â phobl a sgiliau. I gyflawni'r Cynllun, mae Llywodraeth Cymru wedi blaenoriaethu 5 maes allweddol ar gyfer gweithredu:

1. Cenedlaethau'r Dyfodol: Buddsoddi mewn pobl ifanc i'w galluogi i wireddu eu potensial.

2. Cydraddoldeb Economaidd: Ysgogi a chefnogi oedolion sy'n ei chael hi'n anodd ffeindio gwaith i ddod o hyd i gyflogaeth a datblygu oddi mewn iddi.

3. Gwaith Teg i Bawb: Gwella cyflog, ansawdd ac argaeledd cyflogaeth yng Nghymru.

4. Gwaith Iach, Cymru Iach: Cefnogi pobl anabl a'r rhai sydd â chyflyrau iechyd mewn gwaith.

5. Dysgu Am Oes: Gwella sgiliau a lefelau cymhwyster, a symudedd pobl i mewn ac allan o waith.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i greu Cymru lle gall unigolion o bob oedran gael addysg o ansawdd uchel, gyda swyddi i bawb, lle gall busnesau ffynnu mewn economi sero-net sy'n hyrwyddo tegwch a chydraddoldeb. Bydd PSRhau yn chwarae rhan allweddol wrth gyflawni'r dyhead hwn. Bydd PSPRC yn parhau i weithredu fel rhyngwyneb hanfodol i gynrychioli sgiliau a gofynion galwedigaethol cyflogwyr a darparu gwybodaeth gadarn am y farchnad lafur a fydd yn llywio blaenoriaethau Llywodraeth Cymru.


SKILLS


# Sectorau Blaenoriaeth

Yn dilyn dadansoddiad sectoraidd o'r economi ranbarthol, mae Cynllun Cyflogaeth a Sgiliau 2022-2025 yn canolbwyntio ar chwe sector allweddol a all, gyda rhywfaint o ymyrraeth, yn ein barn ni, gael yr effaith fwyaf ar hybu cynhyrchiant, cyflymu twf economaidd a gwella ffyniant cymdeithasol.

Er mwyn cefnogi gweithgarwch ymgysylltu a hyrwyddo perthnasoedd gwaith cadarnhaol gyda chyflogwyr, mae PSPRC yn parhau i gefnogi chwe grŵp sector diwydiant tra bod Technoleg Ariannol wedi'i nodi fel sector newydd. Bydd Technoleg Ddigidol yn torri ar draws y chwech. Mae'r grwpiau sector yn alinio'n uniongyrchol â'r rhai sydd wedi cael eu hystyried yn flaenoriaeth i'r rhanbarth ac mae'r pencampwr sector perthnasol yn gyrru pob grŵp:



DEUNYDDIAU A GWEITHGYNHYRCHU UWCH



LLED-DDARGLUDYDDION CYFANSAWDD



ADEILADU



CREADIGOL



TECHNOLEG ARIANNOL



ECONOMI SYLFAENOL DDYNOL



## Deunyddiau a Gweithgynhyrchu Uwch



Mae gan Ddeunyddiau a Gweithgynhyrchu Uwch (DGU) draddodiad hir yn Ne-ddwyrain Cymru ac erbyn hyn mae nifer o gyflogwyr uwch-dechnoleg cryf wedi'u lleoli yn y rhanbarth. Mae'r sector yn defnyddio prosesau a thechnoleg newydd arloesol i greu cynhyrchion â gwerth ychwanegol, er enghraifft yn y meysydd awyrofod, moduro a fferyllol, ac mae'n cynnwys is-sectorau eraill megis cynhyrchu bwyd. Fel gyda rhannau eraill o'r economi ranbarthol, cyflogwyr bach i ganolig sy'n dominyddu'r sector. Dylid nodi hefyd fod DGU, er ei fod yn sector pwysig, yn cynnwys nifer o sectorau sy'n bwysig ynddynt eu hunain, gan gynnwys Peirianneg Trafnidiaeth.

**Problemau a Heriau Sgiliau**

Mae ein hymgysylltiad â'r sector wedi dangos, er ei bod yn ymddangos bod y diwydiant yn 'dal i fyny' yn weddol dda yn yr amgylchedd presennol, ei fod yn wynebu rhai heriau real iawn yng ngoleuni Brexit, Covid-19 a'r argyfwng ynni sy'n datblygu.

Yn ôl Arolwg Sgiliau PSPRC, cyfeiriodd tua 73% o'r ymatebwyr o'r sector DGU at brinder sgiliau fel her fawr. Mae hyn yn awgrymu nad yw cyfran gymharol fawr o'r gweithlu presennol yn meddu ar y sgiliau i ddiwallu'r anghenion presennol.

O ran y prinder sgiliau presennol ymhlith cyflogwyr, arweinwyr a rheolwyr, nodir datrys problemau a sgiliau technoleg ddigidol fel her reolaidd. Wrth edrych tuag at y dyfodol, mae cyflogwyr yn rhagweld y bydd sgiliau peirianneg arbenigol, sgiliau gweithgynhyrchu clyfar, sgiliau technoleg ddigidol a sgiliau ynni adnewyddadwy yn fwy heriol yn y dyfodol.

Mae ymchwil a gynhaliwyd gan SEMTA[1] wedi dangos mai Peirianneg Fecanyddol yw'r sgil y mae'r galw mwyaf amdani ymhlith cyflogwyr DGU Cymru. Fodd bynnag, Rheoli Prosiectau a Datblygu Prosiectau sy'n ail a thrydydd.

Wrth adolygu dadansoddeg galwedigaethau trwy EMSI, yr offeryn gwybodaeth marchnad lafur a all fesur y galw am dalent ar draws y rhanbarth, mae'r galwedigaethau mwyaf cyffredin yn y rhanbarth yn cynnwys rheolwyr a chyfarwyddwyr cynhyrchu, gweithredwyr prosesau, a pheirianwyr cynhyrchu a chynnal a chadw. Mae ymgysylltiad â'r sector hefyd yn dangos bod rolau'n dod yn fwyfwy amlweddog gyda gweithwyr yn gorfod cyfuno rolau traddodiadol â chyfrifoldebau newydd fel rheoli prosiectau.

Mae'r sector wedi profi problem hirdymor o ran canfyddiadau'r diwydiant, ac mae rhanddeiliaid yn aml yn dweud bod y sector yn cael ei ystyried yn "fudr" yn hytrach na'r diwydiant technolegol-ddatblygedig, glân yr ydyw mewn gwirionedd. Mae'n ymddangos bod y broblem hon yn deillio o wahanol ffynonellau gan gynnwys camsyniadau rhieni, cyngor gyrfaoedd gwael, a chysylltiadau gwael rhwng ysgolion a cholegau mewn grwpiau oedran sy'n pontio i addysg bellach. Mae yna hefyd broblemau hysbys gyda recriwtio menywod i'r sector y gellir eu priodoli'n rhannol i bynciau STEM yn cael eu hystyried ar gam fel rhai sy'n cael eu dominyddu gan ddynion.

1 https://eal.org.uk/support/document-library/eal-sectors/414-ssd2673-skills-snapshot-wales-v6/file?adlt=strict

## Heriau a Chyfleoedd y Sector

1. HYRWYDDO PRENTISIAETHAU A GWEITHIO I SICRHAU BOD FFRAMWEITHIAU'N ADDAS I'R DIBEN AC YN UNOL Â'R SAFONAU PRENTISIAETH YN LLOEGR.

2. CEFNOGI GWEITHREDIAD ADOLYGIAD SECTOR CYMWYSTERAU CYMRU AR GYFER PEIRIANNEG, GWEITHGYNHYRCHU UWCH AC YNNI A SICRHAU'R CYFLEOEDD GORAU POSIBL I SICRHAU BOD Y DATBLYGIADAU'N DIWALLU ANGHENION Y DIWYDIANT.

3. CEFNOGI DARPARWYR HYFFORDDIANT I RECRIWTIO A HYFFORDDI ASESWYR AR GYFER PRENTISIAETHAU LEFEL 4.

4. GWEITHIO GYDA LLYWODRAETH CYMRU I SICRHAU BOD CEFNOGAETH A ARIENNIR AR GYFER HYFFORDDIANT WEDI'I HALINIO AG ANGHENION Y SECTOR GAN GYNNWYS HYFFORDDIANT PWRPASOL AR GYFER GWEITHREDU TECHNOLEG NEWYDD FEL AWTOMEIDDIO, ROBOTEG A SGILIAU DIGIDOL CYSYLLTIEDIG.

5. MANTEISIO AR GYFLEOEDD SY'N CODI DRWY AGENDA CODI'R GWASTAD LLYWODRAETH Y DU, A'R GRONFA FFYNIANT GYFFREDIN.

6. PARHAU I FOD YN YMWYBODOL O EFFAITH COVID/BREXIT A GWEITHIO I SICRHAU BOD MODD DEFNYDDIO SGILIAU GWEITHWYR SYDD WEDI'U DADLEOLI (O BOSIBL DRWY GAU GWEITHFEYDD) MEWN IS-SECTORAU SY'N WYNEBU HERIAU RECRIWTIO.


7. ADEILADU AR DDULLIAU GWEITHREDU MEWN PERTHYNAS AG ADDYSG, GWYBODAETH, CYNGOR AC ARWEINIAD GYRFAOEDD A HYRWYDDO'R SECTOR FEL OPSIWN GYRFA REALISTIG.

8. MYND I'R AFAEL Â MATERION SY'N YMWNEUD AG ANGHYDBWYSEDD RHWNG Y RHYWIAU A PHARHAU I GYNYDDU NIFER Y MERCHED SY'N DOD I MEWN I'R FARCHNAD LAFUR.

9. GWELLA CYNNWYS HYFFORDDIANT ATHRAWON SY'N CANOLBWYNTIO AR STEM A GWEITHIO I GYFLWYNO LLEOLIADAU PROFIAD GWAITH ADDAS AT Y DIBEN MEWN DIWYDIANT I SBARDUNO CYDRADDOLDEB.



## Lled-ddargludyddion Cyfansawdd



Lled-ddargludyddion Cyfansawdd yw'r dechnoleg sy'n sail i lawer o gynhyrchion a meddalwedd uwch-dechnoleg heddiw, gan gynnwys ffonau clyfar, synwyryddion, a chyfathrebu ffibr optig. Maent yn gweithredu ar gyflymder uwch na'r lled-ddargludyddion traddodiadol sy'n seiliedig ar silicon ac maent yn cynnig nodweddion ffotonig a ddefnyddir mewn amrywiaeth eang o dechnolegau synwyryddion a chyfathrebu optig. Maent yn elfen hanfodol o dechnolegau newydd, o gysylltedd 5G i awtomeiddio diwydiannol a cherbydau di-yrrwr.

Mae'r sector yn flaenoriaeth i Brifddinas-Ranbarth Caerdydd ehangach, sy'n gartref i gyflogwyr sector mawr sy'n gweithio ar hyd coridor yr M4. CSconnected yw clwstwr lled-ddargludyddion cyfansawdd cyntaf y byd a'r brand cyfunol ar gyfer nifer cynyddol o gwmnïau lled-ddargludyddion uwch gan gynnwys IQE, KLA, Microchip, MicroLink Devices UK, nexperia a Rockley Photonics. Dylid nodi hefyd fod y gadwyn gyflenwi sy'n bwydo'r sector hwn a'r diwydiannau cysylltiedig yn ymestyn llawer pellach. I gyd, mae dros £500 miliwn yn cael ei fuddsoddi yn y Clwstwr Lled-ddargludyddion Cyfansawdd gyda Phrifysgol Caerdydd, Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU, yn ogystal â diwydiant lleol i gyd yn buddsoddi[2].

Mae cynhyrchu Lled-ddargludyddion Cyfansawdd yn sector hynod benodol. Ni ellir cael data o'r manylder hwn o ffynonellau cyhoeddus. Mae ein hymdrechion blaenorol i ddefnyddio offer GFL masnachol i gael data ar gyfer y sector hwn hefyd wedi profi'n aflwyddiannus. Felly, rydym yn ddibynnol ar ymgysylltu ansoddol â'r sector, ymchwil desg, a darnau penodol o ymchwil y mae'r sector wedi'i wneud ei hun.

Yn ôl ymchwil a gynhaliwyd gan Ysgol Busnes Caerdydd drwy Uned Ymchwil Economi Cymru, yn 2020, roedd sefydliadau sy'n ffurfio rhan o aelodaeth CSconnected yn cyfrif am oddeutu 1,400 o swyddi, ac roedd aelodau'r sector preifat yn cyfrif am oddeutu £440 miliwn o werthiant blynyddol (yn bennaf i farchnadoedd y tu allan i'r UE). Dangosodd dadansoddiad pellach fod aelodau CSconnected yn cefnogi'n uniongyrchol tua £121m o GYC Cymru.[3]

### Problemau a Heriau Sgiliau

Mae recriwtiaid i'r sector yn aml yn symud ymlaen drwy lwybrau cymhwyster peirianneg mwy generig, ac mae angen datblygu darpariaeth addysg a hyfforddiant ymhellach yn benodol ar gyfer y sector lled-ddargludyddion cyfansawdd. Yn hyn o beth, gallai Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol (SGC) a ddatblygwyd yn ddiweddar ddarparu'r blociau adeiladu ar gyfer datblygiadau yn y dyfodol.

Yn fwy diweddar, mae Prifysgol De Cymru (PDC) wedi datblygu Gradd-brentisiaeth benodol ar gyfer technolegau lled-ddargludyddion sy'n cael ei threialu'n llwyddiannus drwy Nexperia. Mae hyn yn caniatáu cymysgedd o recriwtiaid newydd a mynediad ar sail sgiliau a chymwysterau wedi'u hennill drwy gyflawniadau arwyddocaol.

Cynhaliwyd Arolwg Sgiliau i'r sector Lled-ddargludyddion Cyfansawdd a rhyddhawyd canfyddiadau ym mis Gorffennaf 2018 gan UK Electronics Skills Foundation[4]. Mae PSPRC o'r farn mai hon yw'r ffynhonnell fwyaf diffiniol ar gyfer anghenion sgiliau'r sector o ystyried ei dull hynod dargedig ac arbenigedd y rhai sy'n ei chyflawni. Mae gan y sector, i grynhoi, brinder sgiliau cymharol fawr. Bydd gofynion ehangu ac amnewid yn golygu cynyddu'r galw am lafur yn enwedig i fynd i'r afael â phrinder peirianwyr technegol a meddalwedd.

2 blogs.cardiff.ac.uk/university-executive-board/2018/02/20/worlds-first-compound-semiconductor-cluster-in-south-wales
3 sconnected.com/media/vdsn3fgo/csconnected-annual-report-2021.pdf)
4 www.ukesf.org/wp-content/uploads/2018/12/Survey-Report-final.pdf

## Heriau a Chyfleoedd y Sector

1 PARHAU I DDATBLYGU CYMWYSTERAU ADDAS AT Y DIBEN MEWN PARTNERIAETH Â RHANDDEILIAID ALLWEDDOL I HELPU I FYND I'R AFAEL Â PHRINDER SGILIAU.

2 GWEITHIO I SICRHAU BOD FFRAMWEITHIAU PRENTISIAETHAU (GAN GYNNWYS GRADD-BRENTISIAETHAU) YN ADLEWYRCHU ANGHENION Y SECTOR A CHEFNOGI PROSESAU DARPARU.

3 HYRWYDDO PERTHYNAS STRATEGOL RHWNG Y SECTOR A DEUNYDDIAU A GWEITHGYNHYRCHU UWCH (GAN GYNNWYS FFERYLLOL, MODUROL A HEDFAN) I GEFNOGI NEWID GYRFA A/NEU DDATBLYGU.

4 CEFNOGI'R GWAITH O DDARPARU GWEITHGAREDDAU DPP CS CONNECTED A CHYNLLUN GWAITH CYSYLLTIEDIG.

5 ADEILADU AR DDULLIAU GWEITHREDU MEWN PERTHYNAS AG ADDYSG, GWYBODAETH, CYNGOR AC ARWEINIAD GYRFAOEDD I HYRWYDDO'R SECTOR FEL OPSIWN GYRFA REALISTIG.

6 CEFNOGI DATBLYGIAD GWEITHLU CYNHWYSOL A CHYNYDDU NIFER Y MERCHED SY'N DOD I MEWN I'R FARCHNAD LAFUR.

7 GWEITHIO MEWN PARTNERIAETH I YMCHWILIO I FYLCHAU A PHRINDER SGILIAU A DATBLYGU DULLIAU ARLOESOL A CHYDWEITHREDOL I FYND I'R AFAEL Â HERIAU A NODWYD.

8 CYDWEITHIO Â LLYWODRAETH CYMRU A RHANDDEILIAID I SICRHAU BOD CEFNOGAETH ARIANNOL AR GYFER HYFFORDDIANT YN ALINIO AG ANGHENION Y SECTOR.



## Adeiladau

Mae'r sector adeiladu yn chwarae rhan allweddol wrth gyflawni economi fywiog ac amgylchedd o ansawdd. Mae'r swyddi adeiladu yn amrywio o rai traddodiadol 'ar y safle' i swyddi mwy proffesiynol sy'n seiliedig ar wasanaethau megis cynllunwyr, penseiri a syrfëwyr. Adroddwyd bod tua dwy ran o dair o'r gweithlu'n cael eu cyflogi fel crefftwyr a gweithredwyr medrus gyda thraean arall yn cael eu cyflogi mewn rolau rheoli, proffesiynol a swyddfa.

Mae CITB[5] yn nodi bod y gweithlu yng Nghymru ar ddiwedd 2020 yn cynnwys 111,500 o weithwyr a rhagwelir y bydd yn codi i 116,300 erbyn 2026. Drwy'r rhagolygon 5-mlynedd (2022-2026), mae CITB hefyd yn nodi bod cyfanswm allbwn y sector yn 2021 yn £5.5bn gydag amcangyfrif o £5.7bn ar gyfer 2022. Yn 2021, llwyddodd yr allbwn adeiladu yng Nghymru i adfer yn gyflym yn dilyn y cyfnod clo Covid yn 2020 ac amcangyfrifir ei fod wedi tyfu ychydig dros 20%, sy'n uwch na lefel twf y DU.

Y sectorau allweddol sy'n gyrru twf yn y dyfodol yw tai preifat newydd, eiddo cyhoeddus ac eithrio tai, a thrwsio a chynnal a chadw. Mae prosiectau mawr yn Ne-ddwyrain Cymru yn cynnwys adran Dowlais Top i Hirwaun yr A465, sydd werth £500m, ac mae Dŵr Cymru hefyd yn bwriadu buddsoddi £360m y flwyddyn mewn gwariant cyfalaf hyd at 2025. Mae CITB hefyd yn awgrymu bod y gofyniad recriwtio blynyddol yng Nghymru o 2.1% y flwyddyn ychydig yn uwch na chyfartaledd y DU, sef 2.0%.  Mae hyn yn cynnwys galw amnewid ac yn golygu y bydd angen 11,500 o weithwyr ychwanegol o 2022 i 2026.

**Problemau a Heriau Sgiliau**

Gall y sector fod yn gyfnodol ei natur, a gall sgiliau a ddymunir gael eu gyrru gan y math o brosiect sydd ar y gweill. Mae monitro'r biblinell hon o brosiectau adeiladu yn y dyfodol felly yn hanfodol. Mae'n ymddangos bod y galw mwyaf am Fricwyr, Crefftau Trydanol a Phlymio, a Gwresogi, Awyru ac Aerdymheru (HVAC).

Mae gan y sector broblemau o ran mabwysiadu a defnyddio technoleg newydd a allai newid galw sgiliau'r sector. Mae rhai technolegau, er enghraifft, Dronau, Realiti Estynedig / Realiti Rhithwir ac awtomeiddio wedi cael eu mabwysiadu gan rai ond nid oes consensws ynghylch pa dechnolegau fydd yn cael eu defnyddio'n helaeth yn y dyfodol. Mae rolau fel Rheolwr Dylunio, Cydlynydd a Rheolwr M&E, a Chydlynydd a Rheolwr BIM hefyd yn rolau sy'n rhy newydd i gael eu Dosbarthiadau Galwedigaeth Safonol (DGS) eu hunain sy'n gallu creu darlun cynyddol gamarweiniol o'r galw.

Yn dilyn Adolygiad Sector Cymwysterau Cymru, 'Adeiladu'r Dyfodol' (Chwefror 2018), mae wyth cymhwyster newydd wedi'u cyflwyno o 2021.  Maent yn cynnwys TGAU, UG a Safon Uwch newydd mewn adeiladu a'r amgylchedd adeiledig, cymhwyster sylfaen mewn adeiladu a'r amgylchedd adeiledig, cymwysterau prentisiaethau a chymwysterau dilyniant. Mae cymwysterau newydd yn mynd i'r afael â phryderon cyflogwyr a darparwyr addysg a hyfforddiant, a dylent ateb dyheadau'r dyfodol. Gallai'r trawsnewidiad hwn drawsnewid y sector adeiladu yng Nghymru.

Mae'r daith i sero-net hefyd yn gyfle i dyfu a thrawsnewid y diwydiant. Gall gwaith adeiladu ddylanwadu'n sylweddol ar allyriadau'r DU ac mae CITB[6] yn amcangyfrif y bydd angen 50,000 o ôl-ffitiadau yng Nghymru bob blwyddyn o 2020 i gyrraedd targedau sero-net. Bydd angen creu 12,000 o swyddi newydd hefyd mewn effeithlonrwydd ynni erbyn diwedd y 2020au. I ymhelaethu ymhellach, erbyn 2028, bydd angen cynnydd sylweddol yng Nghymru mewn ystod o rolau adeiladu, gan gynnwys rheolwyr prosiect, plymwyr, masnachwyr HVAC, llafurwyr, arbenigwyr amlen adeiladu a chydgysylltwyr a dylunwyr ôl-ffitio.

5 wales-lmi-final.pdf (citb.co.uk)
6 b06414_net_zero_report_wales_v7.pdf (citb.co.uk)

## Heriau a Chyfleoedd y Sector

1. CEFNOGI GWEITHREDIAD CYMWYSTERAU NEWYDD A GWEITHIO I SICRHAU BOD RHANDDEILIAID YN YMWYBODOL O'R DIRWEDD NEWIDIOL.
2. DATBLYGU LLWYBRAU DILYNIANT CLIR AR GYFER DYSGWYR MEWN PERTHYNAS AG ADEILADU.
3. ARCHWILIO'R POTENSIAL I DDATBLYGU RHAGLENNI DYLUNIO DIGIDOL AC ADEILADU YMHELLACH.
4. ARCHWILIO CYFLEOEDD I DDATBLYGU CYMWYSTERAU I GEFNOGI GWAITH ODDI AR Y SAFLE AC ÔL-FFITIO.
5. ADEILADU AR DDULLIAU GWEITHREDU MEWN PERTHYNAS AG ADDYSG, GWYBODAETH, CYNGOR AC ARWEINIAD GYRFAOEDD A HYRWYDDO'R SECTOR FEL OPSIWN GYRFA REALISTIG.
6. CEFNOGI'R GWAITH O DDATBLYGU A DARPARU HYFFORDDIANT I FYND I'R AFAEL AG AGENDÂU CYNALIADWYEDD A DATGARBONEIDDIO.
7. MYND I'R AFAEL Â MATERION SY'N YMWNEUD AG ANGHYDBWYSEDD RHWNG Y RHYWIAU A CHYNYDDU NIFER Y MENYWOD SY'N DOD I MEWN I'R SECTOR.
8. PARHAU I FOD YN YMWYBODOL O EFFAITH BREXIT A CHYFLWYNO MESURAU I LEIHAU EFFAITH ALLFUDO AR Y FARCHNAD LAFUR.
9. HYRWYDDO'R POSIBILIAD O GYFLWYNO PIBLINELL STRATEGOL O BROSIECTAU SEILWAITH I GYNNWYS ASESIADAU EFFAITH SGILIAU.
10. DYLANWADU AR DDOSBARTHIADAU GALWEDIGAETHOL SAFONOL I GYDNABOD LLWYBRAU NEWYDD A RHAI SY'N DOD I'R AMLWG.

## Creadigol »»

Mae Prifddinas-Ranbarth Caerdydd yn cael ei chydnabod fel un o ganolfannau creadigol mwyaf y DU y tu allan i Lundain. Gyda mwy na 1300 o gwmnïau cyfryngau (y mae 600 ohonynt mewn Ffilm a Theledu) yn cyfrannu tua £360 miliwn GYC, mae'r sector wedi dod yn sbardun ar gyfer yr economi ranbarthol. Wedi'i nodweddu gan gyfran uchel o unig fasnachwyr a gweithwyr llawrydd, mae'r rhai a gyflogir yn y sector Creadigol yn cynnwys tua 7% o weithlu'r rhanbarth ac yn cynrychioli un o'r crynodiadau cyflogaeth sectoraidd uchaf yn y DU. Ers 2016, mae 34% o'r holl swyddi newydd yn sector cyfryngau'r DU wedi'u lleoli yn P-RC[7]. Awgrymodd adroddiad diweddar i Gymru gan 'Clwstwr' fod 80% o weithgareddau'r diwydiannau creadigol wedi'u lleoli yn Ne Cymru, gyda Chaerdydd yn rhan greiddiol ohono.

Mae'r rhanbarth wedi dod yn ardal lle mae cwmnïau a thalent greadigol yn ffynnu – yn ganolfan gydnabyddedig ar gyfer cynhyrchu rhaglenni teledu a ffilmiau ac yn gartref i fusnesau sydd wedi ennill gwobrau BAFTA, Emmy ac RTS sy'n gwthio'r ffiniau creadigol yn y wlad hon ac yn fyd-eang, gyda chysylltiadau masnach rhyngwladol sy'n datblygu'n gyflym a mentrau arloesol ar gyfer hyfforddi'r gweithlu.

Yn allweddol i dwf y sector creadigol yn y rhanbarth - ac yn fwy penodol cynhyrchu Ffilm a Theledu - mae capasiti stiwdio o'r radd flaenaf y BBC, Bad Wolf, Dragon a Seren Studios i enwi ond rhai. Mae'r rhanbarth bellach yn un o'r cyrchfannau byd-eang pennaf ar gyfer cynhyrchu Ffilm a Theledu; ac ar un adeg yn 2020 hwn oedd yr hyb cynhyrchu sgrin prysuraf yn Ewrop. Yn ogystal â Ffilm a Theledu, mae gan y rhanbarth gryfderau mewn cyfryngau darlledu, cynnwys digidol a cherddoriaeth leol, ac mae'n ymfalchïo mewn sector gemau bywiog a datblygol.

Mae'r sector hefyd yn dod â manteision i rannau eraill o'r economi ranbarthol; mae gwasanaethau cymorth a ddarperir gan gwmnïau arlwyo, logisteg a chyfleusterau yn rhan hanfodol o lwyddiant y rhanbarth.

### Problemau a Heriau Sgiliau

Mae Cynllun Gweithredu Sgiliau Cymru Greadigol (2022-2025), a lansiwyd yn ddiweddar, yn ceisio mynd i'r afael ag anghenion sgiliau'r sector Creadigol ledled Cymru, gan adeiladu ar y cynnydd a wnaed yn ystod y blynyddoedd diwethaf a manteisio ar y potensial i'r rhanbarthau barhau i fod yn lleoedd ffyniannus a chreadigol i wneud busnes. Mae ein hymgysylltiad â'r sector wedi datgelu amrywiaeth eang o brinder sgiliau ar draws pob llwyfan gyrfa, gan gynnwys ar gyfer rolau fel cyfarwyddwyr, awduron, criw VFX/SFX, criw cynhyrchu ac ôl-gynhyrchu, sinematograffwyr a golygyddion sgript i enwi dim ond rhai.

Mae'r sector Creadigol yn ddigidol iawn ac mae prinder sgiliau sylweddol wedi'i nodi ar gyfer rolau technegol mewn VFX, Gemau ac Animeiddio. Mae technolegau newydd yn trawsnewid llawer o ddiwydiannau o fewn y sector, gyda chynyrchiadau rhithwir a realiti rhithwir estynedig yn gofyn am sgiliau newydd o fewn y gweithlu. Mae sgiliau trosglwyddadwy yn cael eu defnyddio gan y sector drwy raddedigion celfyddydau gweledol, côdwyr a datblygwyr meddalwedd, fodd bynnag cydnabyddir bod angen ymchwil pellach i fapio'r sgiliau hyn.

Nododd Arolwg Sgiliau PSPRC 2022 fod tua 67% o ymatebwyr o'r sector creadigol wedi nodi prinder sgiliau fel eu prif her, gyda recriwtio yn dynn ar ei sodlau. Awgrymodd yr ymatebwyr mai'r prinderau sgiliau mwyaf cyffredin a brofir gan gyflogwyr yn y sector yw creadigol, marchnata, technoleg newydd, Cymraeg a rheoli prosiectau. Fodd bynnag, pan ofynnwyd iddynt am heriau sgiliau posibl yn y dyfodol, nodwyd technoleg ddigidol gan 88%, sy'n cysylltu ag ymddangosiad technolegau newydd a gofynion am sgiliau digidol gwell yng ngweithlu creadigol y rhanbarth.

---

7 https://media.nesta.org.uk/documents/creative_nation-2018.pdf

## Heriau a Chyfleoedd y Sector

1. PARHAU I DDATBLYGU STRATEGAETH SGILIAU GYDLYNOL AR GYFER Y SECTOR CREADIGOL, GAN SICRHAU YMGYSYLLTIAD Â CHYNYRCHIADAU LLAI I NODI EU HERIAU SGILIAU, A PHARHAU'N YMWYBODOL HEFYD O'R TWF YN Y DIWYDIANNAU GÊMIO A CHERDDORIAETH.

2. ARCHWILIO POTENSIAL RHAGLEN CYSGODI GWAITH SY'N BENODOL I'R SECTOR CREADIGOL LEDLED CYMRU I SICRHAU DULL CYDGYSYLLTIEDIG MEWN PERTHYNAS Â PHROFIAD GWAITH A LLEOLIADAU HYFFORDDEION, A FYDD YN CEFNOGI GWELL HYGYRCHEDD I'R SECTOR AR GYFER NEWYDD-DDYFODIAID.

3. EHANGU YSTOD A HYBLYGRWYDD CYFNODAU DYSGU BYR A HYFFORDDIANT DPP SYDD AR GAEL I'R GWEITHLU CREADIGOL DRWY FENTRAU FEL Y RHAGLEN CYFRIF DYSGU PERSONOL (CDP), CYNLLUN PRENTISIAETHAU A RENNIR A DATBLYGU ACADEMÏAU SGILIAU.

4. CYNYDDU'R DEFNYDD O WYBODAETH AM Y FARCHNAD LAFUR I NODI BYLCHAU SGILIAU, PRINDER SGILIAU A THUEDDIADAU RECRIWTIO AR DRAWS Y SECTOR CREADIGOL, A LLYWIO'R GWAITH O DDARPARU DARPARIAETH HYFFORDDIANT ÔL-16.

5. DATBLYGU CYSYLLTIADAU CRYFACH GYDA CYMRU GREADIGOL I WELLA YMATEBOLRWYDD Y SECTOR A'I DDIOGELU AT Y DYFODOL MEWN PERTHYNAS Â'R POSIBILRWYDD Y BYDD CYNYRCHIADAU TELEDU A FFILM BLAENLLAW'N FFILMIO YN Y RHANBARTH.

6. YMCHWILIO YMHELLACH I'R ANGHENION SGILIAU A'R GEFNOGAETH SYDD EI HANGEN AR GYFER CYNYRCHIADAU RHITHWIR AC INTEGREIDDIO SGILIAU O'R DIWYDIANT GÊMIO I GEFNOGI DIWYDIANNAU ERAILL YN Y SECTOR CREADIGOL.

7. GWELLA CYDWEITHIO O FEWN Y SECTOR DRWY AMSERLEN GYDLYNOL A DDIWEDDERIR YN RHEOLAIDD O GYNYRCHIADAU SY'N CAEL EU FFILMIO AR DRAWS Y RHANBARTH AC SYDD AR Y GWEILL, I GYNLLUNIO AR GYFER BYLCHAU SGILIAU POSIBL A PHRINDER LLAFUR H.Y CRIW CYNHYRCHU.

8. MAPIO SGILIAU TROSGLWYDDADWY GWEITHLU CREADIGOL Y RHANBARTH I SICRHAU CYNALIADWYEDD GYRFAOEDD O FEWN Y SECTOR A GOSTYNGIAD YN Y DALENT SY'N CAEL EI CHOLLI O'R SECTOR NEU I RANBARTHAU ERAILL.



## Technoleg Ariannol

Mae 'Technoleg Ariannol' yn cyfuno technoleg a chyllid i newid y ffordd draddodiadol y mae gwasanaethau ariannol yn cael eu rhedeg. Mae Technoleg Ariannol yn newid y ffordd y mae cwmnïau'n gweithredu ac yn trawsnewid y ffordd rydym yn trosglwyddo, benthyg, diogelu, a rheoli ein harian. Y DU yw un o brif ganolfannau ariannol y byd, ac mae hefyd yn ganolfan Technoleg Ariannol flaenllaw, gyda gweithgarwch Technoleg Ariannol cynyddol ar draws y sector ariannol. Mae busnesau bach newydd, ac arloesedd o fewn cwmnïau gwasanaethau ariannol mawr sy'n bodoli eisoes, yn creu swyddi ac yn denu buddsoddiad. Mae ymchwil i'r DU yn awgrymu bod y sector bellach wedi tyfu o'i wreiddiau tarfol yn ddiwydiant a gynhyrchodd £6.6bn mewn refeniw yn 2015 gan gyflogi 61,000 o bobl[8].

Cymru sydd â'r economi ddigidol sy'n tyfu gyflymaf y tu allan i Lundain, ac mae twf y sector ariannol a phroffesiynol yng Nghymru wedi arwain at ddiwydiant Technoleg Ariannol ffyniannus. Ar draws y rhanbarth, mae cwmnïau fel Admiral ymhlith cyflogwyr mwyaf y rhanbarth. Mae'r sîn Technoleg Ariannol Gymreig bellach yn un o'r rhai mwyaf actif yn y DU diolch i'w chronfa dalent arloesol a'i chyfleoedd buddsoddi cynyddol. Mae ecosystem dechnoleg ffyniannus Cymru gyda'i chadwyn gyflenwi gynyddol a phrifysgolion entrepreneuraidd yn darparu sylfaen gadarn i Dechnoleg Ariannol ffynnu.

Gyda chanolfannau Technoleg Ariannol Cymru wedi'u lleoli yng Nghaerdydd, Casnewydd, Abertawe a Wrecsam, mae bron i 40,000 o bobl wedi'u cyflogi yn y diwydiant Technoleg Ariannol yng Nghymru. Mae'r sector technoleg werth tua £8.5bn i economi Cymru, ac mae'n parhau i dyfu gyda gwasanaethau ariannol a phroffesiynol dan ei adain. Mae yna gymuned fywiog yn sîn dechnoleg Cymru, sy'n caniatáu i gwmnïau newydd, buddsoddwyr a chwmnïau mwy o faint gyfarfod a rhannu syniadau drwy gyflymyddion a deoryddion yn ogystal â digwyddiadau rhwydweithio a gweithleoedd hyblyg. At hynny, mae Cymru'n gartref i'r radd israddedig gyntaf mewn technoleg ariannol.

### Problemau a Heriau Sgiliau

Mae'r sector, i grynhoi, yn profi amrywiaeth o fylchau a phrinder sgiliau. Hefyd, mae cwmnïau Technoleg Ariannol yn aml yn mynnu set sgiliau esblygol i barhau'n gystadleuol a chadw i fyny gyda datblygiadau technolegol. Felly, mae piblinell o dalent yn yr ardal ddaearyddol gywir yn hanfodol. Ynghyd â sgiliau meddal, mae sgiliau technegol gan gynnwys bloc-gadwyn, arbenigedd cyfriflyfrau gwasgaredig, seiberddiogelwch, rhaglennu, dysgu peirianyddol a deallusrwydd artiffisial i gyd yn sgiliau y mae galw mawr amdanynt o fewn Technoleg Ariannol. Mae'r galw mawr am y sgiliau hyn yn ganlyniad uniongyrchol i'r tueddiadau cynyddol mewn technoleg ddigidol a galluogol sy'n dangos y cysylltiad clir rhwng y sgiliau y mae galw amdanynt a'r tueddiadau technoleg ddigidol sy'n ategu ei gilydd.

Mae Adolygiad Kalifa o Dechnoleg Ariannol y DU[9] yn pwysleisio arwyddocâd sgiliau ar gyfer llwyddiant busnes. Mae'r adolygiad wedi nodi cynllun pum pwynt o argymhellion i ddarparu a chyflawni gweledigaeth gref gyda sgiliau'n ffocws mawr. Mae'r adolygiad yn cyfeirio at y gronfa gyfoethog o dalent Technoleg Ariannol yn y DU, a gefnogir gan system brifysgol o'r radd flaenaf, ac mae'n amlygu cynigion sy'n alinio'n helaeth â'r heriau a'r cyfleoedd a nodwyd gan fusnesau Technoleg Ariannol y rhanbarth, a thrwy gydweithio â FinTech Wales, sef:

- Ailhyfforddi ac uwchsgilio oedolion i gefnogi Technoleg Ariannol y DU drwy sicrhau mynediad at gyrsiau byr gan ddarparwyr addysg o ansawdd uchel am gost isel.
- Creu ffrwd fisa newydd i wella mynediad at Dalent Fyd-eang ar gyfer tyfu busnesau Technoleg Ariannol.
- Adeiladu piblinell o dalent Technoleg Ariannol trwy gefnogi tyfiant i gynnig lleoliadau gwaith sefydledig i fyfyrwyr Addysg Bellach ac Addysg Uwch a Kickstarters.

8 UK_FinTech_-_On_the_cutting_edge_-_Full_Report.pdf (publishing.service.gov.uk)
9 The Kalifa Review of UK FinTech - GOV.UK (www.gov.uk)

## Heriau a Chyfleoedd y Sector

1 GWELLA PIBLINELLAU SGILIAU A THALENT AC ADEILADU AR DDULLIAU GWEITHREDU MEWN PERTHYNAS AG ADDYSG, GWYBODAETH, CYNGOR AC ARWEINIAD GYRFAOEDD I HYRWYDDO'R SECTOR FEL GYRFA REALISTIG.

2 ARCHWILIO DATBLYGIAD POSIBL LLEOLIADAU PROFIAD GWAITH O ANSAWDD MEWN PARTNERIAETH Â CHYFLOGWYR A RHANDDEILIAID ALLWEDDOL.

3 DATBLYGU YMHELLACH DDARPARIAETH ACADEMÏAU A BŴT-CAMP A'I HALINIO AG ANGHENION Y SECTOR TECHNOLEG ARIANNOL.

4 GWEITHIO I SICRHAU BOD FFRAMWEITHIAU PRENTISIAETHAU'N ADLEWYRCHU ANGHENION Y SECTOR AC ARCHWILIO CYFLEOEDD YMHELLACH DRWY BRENTISIAETHAU A RENNIR A GRADD-BRENTISIAETHAU.

5 COFLEIDIO CYFLEOEDD AR GYFER CYSTADLAETHAU SGILIAU ADDYSG BELLACH AC ARCHWILIO YMGYSYLLTIAD POSIBL FEL RHAN O AGENDA WORLD SKILLS UK.

6 GWEITHIO GYDA SEFYDLIADAU ADDYSG UWCH RHANBARTHOL I DDATBLYGU DARPARIAETH ADDAS AT Y DIBEN A'I HALINIO'N WELL AG ANGHENION CYFLOGWYR TECHNOLEG ARIANNOL.

7 CYDWEITHIO Â LLYWODRAETH CYMRU I SICRHAU BOD CEFNOGAETH ARIANNOL AR GYFER HYFFORDDIANT YN ALINIO AG ANGHENION Y SECTOR.

8 MANTEISIO AR GYFLEOEDD SY'N CODI DRWY AGENDA CODI'R GWASTAD LLYWODRAETH Y DU, A'R GRONFA FFYNIANT GYFFREDIN (CFFG).



## Economi Sylfaenol Ddynol: Addysg, Iechyd, Gofal Cymdeithasol, Gofal Plant a Gwasanaethau Brys



Mae'r economi sylfaenol wedi'i hadeiladu ar weithgareddau sy'n darparu'r nwyddau a'r gwasanaethau hanfodol ar gyfer bywyd pob dydd, waeth beth fo statws cymdeithasol defnyddwyr. Fel y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol, rydym yn diffinio'r rhain ymhellach fel y gwasanaethau a ddarperir o fewn y sectorau Iechyd, Addysg, Gofal Cymdeithasol, Gofal Plant a Gwasanaethau Brys, sy'n cael eu darparu'n gyffredinol gan gymysgedd o sefydliadau yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat.

Yn 2019, roedd y niferoedd wedi'u cyflogi yn y sector Gweinyddiaeth Gyhoeddus, Amddiffyn, Addysg ac Iechyd, sef y categori mwyaf priodol a ddefnyddir mewn ffynonellau data cyhoeddus, wedi cynyddu i 216,100 ar draws y rhanbarth. Yn ôl data EMSI, o 2021 roedd 155,836 o swyddi'n benodol yn y sectorau Addysg, Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a'r swyddi mwyaf cyffredin oedd Gweithwyr Gofal a Gofalwyr Cartref (11.9%), Nyrsys (10.1%), Ategolion Nyrsio a Chynorthwywyr (5.1%), Gweithwyr Addysgu Proffesiynol Addysg Gynradd a Meithrin (4.6%) a Gweithwyr Addysgu Proffesiynol Addysg Uwchradd (4.2%).

### Problemau a Heriau Sgiliau

Ymatebodd yr economi sylfaenol yn gyflym i'r heriau sgiliau o ganlyniad i'r pandemig Covid-19 i alluogi parhad gwasanaethau hanfodol. O fewn Addysg, darparwyd hyfforddiant ar gyfer athrawon a staff Dysgu Seiliedig ar Waith ar gyfer darparu dosbarthiadau'n effeithiol drwy blatfformau rhithwir/ar-lein ac mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol gwelwyd proses sylweddol o uwchsgilio'r gweithlu ar gyfer adsefydlu a rheoli heintiau. Fodd bynnag, mae toriadau i'r gyllideb o fewn y sector cyhoeddus ac arbedion effeithlonrwydd yn effeithio ar y cyllid sydd ar gael ar gyfer hyfforddiant gweithlu yn y dyfodol i fynd i'r afael â bylchau sgiliau.

Erys yr her o 'wahaniaethu galwedigaethol' yn y sectorau Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant yn arbennig, lle mae menywod yn cael eu gorgynrychioli ac yn 'sownd' mewn gwaith cyflog isel neu ran-amser. Gwyddwn fod hyn hefyd yn gyfrannwr i'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau yng Nghymru, a gallai fod yn gysylltiedig â chanfyddiad negyddol o'r sectorau hyn sy'n awyddus i godi eu proffil i gystadlu â'r sectorau twf uchel er mwyn denu sylw, buddsoddiad a thalent yn y dyfodol.

Mae ein hymgysylltiad â'r sectorau hyn wedi nodi nifer o brinderau sgiliau/llafur ar gyfer rolau fel Nyrsys, gweithwyr Gofal Cymdeithasol, gweithwyr Gofal Plant a Chwarae a Thiwtoriaid / staff Dysgu Seiliedig ar Waith. Mae galw sylweddol hefyd am sgiliau Cymraeg ar draws y gweithlu Addysg cyfan.

Nododd Arolwg Sgiliau PSPRC 2022 fod y mwyafrif o'r ymatebwyr o'r sectorau Iechyd, Addysg, Gofal Cymdeithasol a Chyhoeddus wedi nodi recriwtio, prinder sgiliau a chadw staff fel eu prif heriau. Awgrymodd dros 20% nad yw newydd-ddyfodiaid i'w gweithlu yn 'barod i weithio', gyda diffyg sgiliau wedi'i nodi fel y prif reswm. Y tair prif her sgiliau ar gyfer y dyfodol a nodwyd ar gyfer y sectorau hyn oedd Technoleg Ddigidol, y Gymraeg ac Ynni Adnewyddadwy.

Yn gadarnhaol, cadarnhaodd dros 58% o'r ymatebwyr eu bod yn cyflogi prentisiaid, gyda bron pob un yn teimlo y byddai eu sector yn elwa o'r modelau darparu Prentisiaethau a Rennir a Gradd-brentisiaethau. Nodwyd 'fframweithiau prentisiaethau'n methu â diwallu anghenion busnes' fel y prif reswm dros beidio â chyflogi prentisiaid.

## Heriau a Chyfleoedd y Sector

1. PARHAU I DDATBLYGU CAPASITI AR DRAWS DARPARWYR HYFFORDDIANT ÔL-16 I FODLONI GOFYNION ASESU A SICRWYDD ANSAWDD NEWYDD AR GYFER FFRAMWEITHIAU PRENTISIAETHAU O FEWN IECHYD, GOFAL CYMDEITHASOL A'R BLYNYDDOEDD CYNNAR A GOFAL PLANT AC ARCHWILIO CYFLEOEDD I ADDYSGWYR WEITHIO MEWN PARTNERIAETH Â CHYFLOGWYR I GYD-DDARPARU DARPARIAETH ARBENIGOL.

2. CODI PROFFIL PRENTISIAETHAU A CHYFLEOEDD LLEOLIAD GWAITH Y SECTOR IECHYD, GOFAL CYMDEITHASOL A'R BLYNYDDOEDD CYNNAR A GOFAL PLANT A GWELLA'R GWAITH O HYRWYDDO'R SECTORAU HYN FEL OPSIWN GYRFA REALISTIG GYDA FFOCWS PENODOL AR DDENU NEWYDD-DDYFODIAID DRWY YMGYRCHOEDD WEDI'U TARGEDU AT BRINDER SGILIAU HYSBYS.

3. PARHAU I GEFNOGI MYNEDIAD AT GYLLID PRENTISIAETHAU POB-OEDRAN AR GYFER Y SECTOR ECONOMI DDYNOL SYLFAENOL, GAN GANOLBWYNTIO'N BENODOL AR ANNOG POBL IFANC A'R RHAI O GRWPIAU HEB GYNRYCHIOLAETH DDIGONOL I YMGYMRYD Â PHRENTISIAETHAU.

4. DATBLYGU RHAGLENNI PRENTISIAETHAU NEWYDD LLE CEIR TYSTIOLAETH O'R GALW, MEGIS GRADD-BRENTISIAETHAU A PHRENTISIAETHAU LEFEL UWCH I SICRHAU BOD LLWYBRAU ANGENRHEIDIOL I MEWN I'R SECTOR ECONOMI DDYNOL SYLFAENOL.

5. HYRWYDDO'R SECTOR ADDYSG FEL OPSIWN GYRFA DENIADOL I SICRHAU NEWID CADARNHAOL A CHYNNYDD YN NIFER YR YMARFERWYR ADDYSG AR Y GOFRESTR, GAN GANOLBWYNTIO AR RECRIWTIO POBL O GRWPIAU HEB GYNRYCHIOLAETH DDIGONOL YN Y GWEITHLU PRESENNOL.

6. GWELLA SYMUDOLRWYDD A NATUR DROSGLWYDDADWY CYMWYSTERAU A CHREDYDAU RHWNG SEFYDLIADAU ADDYSGOL, GAN SICRHAU BOD DYSGU A CHYFLAWNIADAU BLAENOROL YN CAEL EU CYDNABOD.

7. CODI YMWYBYDDIAETH O'R DULLIAU GWEITHREDU ARLOESOL MEWN PERTHYNAS Â CHYFNODAU DYSGU BYR A DPP AR GYFER GWEITHLU'R ECONOMI DDYNOL SYLFAENOL GYDAG YMGYRCHOEDD WEDI'U TARGEDU AC ASTUDIAETHAU ACHOS SY'N HYRWYDDO LLWYBRAU 'ANHRADDODIADOL' I'R SECTOR.

8. ADEILADU AR DDULLIAU GWEITHREDU SYDD NEWYDD EU DATBLYGU O RAN ADDYSG, GWYBODAETH, CYNGOR AC ARWEINIAD GYRFAOEDD SY'N MYND I'R AFAEL Â CHANFYDDIADAU O'R SECTOR A PHARHAU I HYRWYDDO'R ECONOMI DDYNOL SYLFAENOL FEL OPSIWN GYRFA REALISTIG.

9. YMGYSYLLTU AG ADOLYGIADAU CYMWYSTERAU CYMRU O GYMWYSTERAU PRESENNOL A RHAI SY'N DOD I'R AMLWG ER MWYN SICRHAU BOD CYMWYSTERAU'N DIWALLU ANGHENION Y DIWYDIANT.

10. CEFNOGI'R GALW CYNYDDOL AM SGILIAU IAITH GYMRAEG AR DRAWS Y GWEITHLU ADDYSG.

## Economi Sylfaenol Ddynol: Lletygarwch, Manwerthu a Thwristiaeth



Mae'r sectorau Twristiaeth a Lletygarwch yn gyfranwyr mawr i economi Cymru a'r economi ranbarthol, gan gyfrif am 5.0% o GYC Cymru (£3.4 biliwn). Yn 2020, roedd y sectorau hyn yn cyflogi tua 151,000 o bobl ledled Cymru, gostyngiad o 161,000 yn 2019 ac, yn ystod yr amser hwnnw, ni newidiodd lefelau cyflogaeth cyffredinol yng Nghymru[10]. Dros y blynyddoedd diwethaf mae cyflogaeth yn y sectorau Twristiaeth a Lletygarwch fel cyfran o'r holl gyflogaeth yng Nghymru wedi amrywio. Mae'r ffigyrau diweddaraf yn awgrymu bod mwy o fusnesau Lletygarwch yn y rhanbarth nawr na phan ddechreuodd y pandemig, gyda llawer o weithredwyr bach yn mynd i'r farchnad.

Mae'r sectorau Twristiaeth a Lletygarwch wedi ei chael hi'n fwyfwy anodd recriwtio, yn rhannol oherwydd dewisiadau amgen yr ymddangosir eu bod yn talu'n well. Awgrymodd baromedr Twristiaeth diweddaraf Llywodraeth Cymru fod Prifddinas-Ranbarth Caerdydd, o gymharu â rhanbarthau eraill Cymru, wedi cael mwy o drafferth na neb yn ceisio cyflawni lefelau cwsmeriaid cyn-Covid. Mae Croeso Cymru hefyd wedi cydnabod bod problemau gyda hunaniaeth y brand Cymreig a delwedd wael gyffredinol y sectorau Twristiaeth a Lletygarwch ac yn ddiweddar lansiwyd ymgyrch farchnata i gyflwyno Cymru fel cyrchfan gydol-y-flwyddyn.

Y sector Manwerthu yw un o gyflogwyr mwyaf y sector preifat yng Nghymru, gan gyflogi tua 114,000 o bobl. Mae'n gyfrifol am 6.0% o GYC Cymru[11]. Dywedwyd bod y sector yn crebachu hyd yn oed cyn y pandemig Covid-19, sydd wedi cael effaith sylweddol ar y sector, ond mae ynghanol arallgyfeiriad. Mae'r ffordd rydyn ni'n siopa yn newid, mae rôl y siop yn esblygu, ac mae'r cyfleoedd cyflogaeth yn newid.

Yn ôl data EMSI, y rolau mwyaf cyffredin a hysbysebir o fewn y rhanbarth ar gyfer y sectorau hyn yw; Cynorthwywyr Gwerthu a Manwerthu (18.9%), Cynorthwywyr Cegin ac Arlwyo (8.2%), Staff Bar (6.5%), Gweinyddwyr (5.6%), Arianwyr Manwerthu a Gweithredwyr Til (4.1%).

### Problemau a Heriau Sgiliau

Mae'r sector wedi dweud bod effaith gyfunol y pandemig Covid-19 a Brexit wedi creu'r 'storm berffaith' gan arwain at brinder sgiliau sylweddol, yn ogystal â cholli refeniw a chau lleoliadau. Mae'r heriau sgiliau presennol a phrinder llafur wedi'u gwaethygu eto gan yr argyfwng ynni sy'n dod i'r amlwg, gan orfodi sefydliadau i leihau cyllidebau hyfforddi'r gweithlu ac atal recriwtio. Mae sicrhau bod newydd-ddyfodiaid i'r gweithlu yn y dyfodol yn meddu ar y 'Sgiliau Sylfaenol' sydd eu hangen ar gyfer diwydiannau sy'n canolbwyntio ar gwsmeriaid yn her allweddol i'r sectorau hyn. Fodd bynnag, mae cymhlethdod y seilwaith hyfforddi yn parhau i fod yn ffynhonnell o ddryswch i gyflogwyr a darpar fyfyrwyr yn y sector hwn.

Mae prinder sgiliau wedi cael ei gofnodi'n eang ledled Cymru ar gyfer Cogyddion a staff arlwyo ond hefyd ar gyfer rolau fel Cynorthwywyr Manwerthu, Therapyddion Sba, Glanhawyr a Rheolwyr Digwyddiadau. Mae cyflogau Cogyddion a staff arlwyo wedi cynyddu'n sylweddol yn y rhanbarth o gymharu â'r lefelau cyn y pandemig; fodd bynnag, mae prinder sgiliau ar gyfer y rolau hyn yn parhau'n uchel ac mae recriwtio'n heriol.

Nododd Arolwg Sgiliau PSPRC 2022 mai recriwtio, heriau economaidd/ariannol, prinder sgiliau a datblygu staff oedd y prif heriau i'r sectorau Lletygarwch, Manwerthu a Thwristiaeth. Nododd tua dau o bob tri o'r ymatebwyr eu bod yn profi prinder sgiliau ar hyn o bryd o ran gwasanaeth cwsmeriaid, Cogydd / cegin, cyfathrebu, datrys problemau ac arwain a rheoli.

10 https://www.llyw.cymru/proffil-economi-ymwelwyr-cymru-2021-html
11 https://www.llyw.cymru/datganiad-sefyllfar-sector-manwerthu-html

## Heriau a Chyfleoedd y Sector

1. CODI PROFFIL PRENTISIAETHAU O FEWN Y SECTOR LLETYGARWCH A SICRHAU BOD FFRAMWEITHIAU COGINIO'N ADDAS I'R DIBEN ER MWYN BODLONI TUEDDIADAU'R DIWYDIANT YN Y DYFODOL.
2. GWELLA CYFLEOEDD PROFIAD GWAITH AR DRAWS Y SECTORAU LLETYGARWCH, MANWERTHU A THWRISTIAETH I BOBL IFANC MEWN YMDRECH I LEIHAU'R PRINDER SGILIAU PRESENNOL A CHWALU CANFYDDIADAU NEGYDDOL O YRFAOEDD YN Y SECTORAU HYN.
3. CYNYDDU'R DEFNYDD O WYBODAETH AM Y FARCHNAD LAFUR I NODI BYLCHAU SGILIAU, PRINDER LLAFUR A THUEDDIADAU RECRIWTIO AR DRAWS Y SECTORAU LLETYGARWCH, MANWERTHU A THWRISTIAETH, A LLYWIO'R GWAITH O DDARPARU DARPARIAETH HYFFORDDIANT ÔL-16.
4. EHANGU YSTOD A HYBLYGRWYDD CYFNODAU DYSGU BYR A HYFFORDDIANT DPP SYDD AR GAEL I'R GWEITHLU LLETYGARWCH, MANWERTHU A THWRISTIAETH DRWY FENTRAU FEL Y RHAGLEN CYFRIF DYSGU PERSONOL (CDP).
5. GWEITHIO MEWN PARTNERIAETH Â DARPARWYR HYFFORDDIANT A RHAGLENNI CYFLOGADWYEDD I HYRWYDDO PWYSIGRWYDD NEWYDD-DDYFODIAID I'R SECTORAU LLETYGARWCH, MANWERTHU A THWRISTIAETH YN Y DYFODOL SYDD Â'R 'SGILIAU SYLFAENOL' AR GYFER DIWYDIANNAU SY'N CANOLBWYNTIO AR GWSMERIAID, OCHR YN OCHR Â'R CYMWYSTERAU PRIODOL.
6. ARCHWILIO DULLIAU ARLOESOL O DDARPARU HYFFORDDIANT A CHYMWYSTERAU I GWRDD Â BYLCHAU SGILIAU A HERIAU RECRIWTIO'R SECTOR, MEGIS ACADEMÏAU SGILIAU A CHYNLLUNIAU PRENTISIAETHAU A RENNIR.
7. PARHAU I FOD YN YMWYBODOL O'R BYLCHAU SGILIAU AR GYFER COGYDDION A THERAPYDDION SBA A HARDDWCH A SICRHAU BOD Y SECTORAU LLETYGARWCH, MANWERTHU A THWRISTIAETH YN PARHAU I GAEL EU CYDNABOD FEL CYFRANWYR ALLWEDDOL I ECONOMI SYLFAENOL CYMRU.
8. SEFYDLU LLWYBRAU MWY EFFEITHIOL RHWNG DIWYDIANT AC ADDYSG BELLACH ER MWYN SYMLEIDDIO'R BROSES O BONTIO DYSGWYR AB I'R SECTORAU LLETYGARWCH, MANWERTHU A THWRISTIAETH, YN ENWEDIG I MEWN I BRENTISIAETHAU.
9. ADEILADU AR Y DULLIAU GWEITHREDU EFFEITHIOL O RAN ADDYSG, GWYBODAETH, CYNGOR AC ARWEINIAD GYRFAOEDD I FYND I'R AFAEL Â CHANFYDDIADAU O'R SECTOR A HYRWYDDO'R SECTORAU LLETYGARWCH, MANWERTHU A THWRISTIAETH FEL DEWISIADAU GYRFA REALISTIG.



# Cynllun Gweithredu PSPRC

| THEMÂU ALLWEDDOL TRAWSBYNCIOL PSPRC | RHANDDEILIAID ALLWEDDOL | CAMAU GWEITHREDU 2022 – 2025 | | |
|---|---|---|---|---|
| Cryfhau'r cynnig addysg bellach ôl-16 mewn sectorau â blaenoriaeth trwy fwy o arbenigo i ateb y galw gan gyflogwyr ledled y Ddinas-Ranbarth. | • Llywodraeth Cymru<br>• CADY<br>• Sefydliadau AB / AU<br>• Grwpiau Clwstwr Cyflogwyr | Gyrru blaenoriaethau rhanbarthol ar gyfer darpariaeth ôl-16 drwy wybodaeth gadarn am y farchnad lafur ac ehangu'r cynnig rhanbarthol CDP. | Cyd-ddatblygu piblinellau talent drwy fodelau Academi / Bwtcamp fel ymyriadau sgiliau targedig a hyblyg sy'n para tua 12 wythnos | Gweithio gyda Llywodraeth Cymru a'r Comisiwn ar gyfer Addysg Drydyddol ac Ymchwil (CADY) arfaethedig i gyflawni'r uchelgais o system addysg a hyfforddiant ôl-orfodol gydgysylltiedig. |
| Ehangu'r cynnig Prentisiaethau ar lefelau uwch drwy ymateb i newidiadau i bolisi'r llywodraeth. | • Llywodraeth Cymru<br>• Sefydliadau AB / AU<br>• Darparwyr DSW<br>• Grwpiau Clwstwr Cyflogwyr | Defnyddio tystiolaeth i ddylanwadu ar ddatblygiad fframweithiau Prentisiaeth newydd ar bob lefel. | Cynyddu nifer y bobl sy'n manteisio ar brentisiaethau ar draws sectorau blaenoriaeth (gan gynnwys Prentisiaethau Uwch a Gradd-brentisiaethau) ac adeiladu ar fodelau llwyddiannus Aspire, Y Prentis a Sgil Cymru. | Recriwtio mwy o hyfforddwyr ac aseswyr er mwyn sicrhau capasiti o fewn Dysgu Seiliedig ar Waith ôl-16. |
| Ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol wrth ddarparu agenda cyflogadwyedd Cymru a thargedu'r unigolion sydd bellaf o'r farchnad lafur. | • Llywodraeth Cymru<br>• Awdurdodau Lleol<br>• Gyrfa Cymru<br>• Sefydliadau AB / AU<br>• Darparwyr DSW<br>• Grwpiau Clwstwr Cyflogwyr | Dylanwadu ar gyfeiriad gweithgareddau'r Gronfa Ffyniant Gyffredin, yn enwedig y rheini yn gysylltiedig â 'Phobl a Sgiliau', a sicrhau'r cyfleoedd mwyaf posibl ledled De-ddwyrain Cymru. | Cefnogi Llywodraeth Cymru i gyflwyno'r Gwarant Pobl Ifanc (GPI), sy'n cynnig cymorth i mewn i waith, addysg, hyfforddiant, neu hunangyflogaeth i bawb dan 25 i sicrhau na fydd unrhyw genhedlaeth yn cael ei cholli ledled Cymru. | Cynhyrchu gwybodaeth gadarn am y farchnad lafur (GFL) i lywio datblygiad a darpariaeth prosiectau a rhaglenni sy'n dod i'r amlwg. |
| Hyrwyddo technoleg ddigidol fel sector 'galluogi' allweddol a helpu i greu gweithlu sydd â'r sgiliau digidol, y gallu, a'r hyder i ragori yn y gweithle ac mewn bywyd bob dydd | • Llywodraeth Cymru<br>• Sefydliadau AB / AU<br>• Darparwyr DSW<br>• Grwpiau Clwstwr Cyflogwyr | Datblygu ymhellach y diwydiant Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol (SGC) i sicrhau bod cymwysterau galwedigaethol yn cadw i fyny ag anghenion diwydiant. | Mynd i'r afael â phrinder sgiliau critigol a hyrwyddo darpariaeth hyfforddiant gwerthwr a gynigir drwy'r rhaglen Cyfrif Dysgu Personol (CDP). | Cynyddu'r nifer sy'n manteisio ar brentisiaethau gan gynnwys Prentisiaethau a Rennir a Phrentisiaethau Lefel Gradd. |
| Datblygu sgiliau i gefnogi'r broses o drosglwyddo tuag at economi carbon isel. | • Llywodraeth Cymru<br>• Sefydliadau AB / AU<br>• Darparwyr DSW<br>• Grwpiau Clwstwr Cyflogwyr<br>• SWIC<br>• WTUC | Grymuso cyflogwyr i bontio tuag at sero-net a dylanwadu ar ddatblygiad SGC i adlewyrchu rolau newydd a rhai sy'n dod i'r amlwg. | Adrodd ar y rhwystrau i gwrdd â gofynion sero-net ac archwilio cyfleoedd i ddatblygu Prentisiaethau a chyflwyno cymwysterau i gwrdd â dyheadau. | Datblygu dulliau gweithredu ar y cyd â rhanddeiliaid allweddol gan gynnwys SWIC a TUC Cymru a datblygu rhaglenni gwaith ar y cyd. |
| Dylanwadu ar waith Cymwysterau Cymru a sicrhau bod cymwysterau sy'n dod i'r amlwg yn diwallu anghenion y diwydiant. | • Llywodraeth Cymru<br>• Cymwysterau Cymru<br>• Sefydliadau AB / AU<br>• Darparwyr DSW<br>• Grwpiau Clwstwr Cyflogwyr | Gweithio gyda Cymwysterau Cymru drwy eu hadolygiadau sector a chydweithio fel rhan o brosesau gweithredu. | Dylanwadu ar Colegau Cymru, FfHCC a darparwyr hyfforddiant i sicrhau bod ymarferwyr yn meddu ar y sgiliau i gyflawni yn erbyn gofynion newydd. | Ymgysylltu â 'Cymwys ar gyfer y Dyfodol' i ail-lunio'r dirwedd gymwysterau drwy'r cwricwlwm newydd i Gymru, gan ddefnyddio grwpiau clwstwr sector blaenoriaeth. |
| Adeiladu ar dulliau gweithredu o ran addysg, gwybodaeth, cyngor ac arweiniad ar yrfaoedd i fynd i'r afael â chanfyddiad sectorau a hyrwyddo'r sectorau allweddol fel dewisiadau gyrfa realistig. | • Llywodraeth Cymru<br>• Gyrfa Cymru<br>• Sefydliadau AB / AU<br>• Darparwyr DSW<br>• Grwpiau Clwstwr Cyflogwyr | Cydweithio â Gyrfa Cymru wrth gyflawni'r Cynllun Gweithredu AGCAG ar y cyd. | Hyrwyddo mentrau sy'n gysylltiedig â gyrfaoedd gan gynnwys cynllun Venture P-RC, rhaglenni awdurdod lleol fel y fenter Addewid Caerdydd a rhaglenni cenedlaethol fel y Gyfnewidfa Addysg Busnes a'r Cynllun Partner Gwerthfawr. | Ysbrydoli busnesau i ymgysylltu ag ysgolion fel rhan o'r gwaith o gyflwyno'r cwricwlwm newydd i Gymru a'r thema trawsbynciol Gyrfaoedd a Phrofiadau Gwaith (GPhG). |





## Manylion Cyswllt PSPRC

**E-bost:** RegionalSkillsPartnership@newport.gov.uk

**Twitter:** @CCR_RSP

**Gwefan RSP:** www.ccrsp.co.uk